

Bwletin Awdurdod S4C

Cyfarfod 301 - 21 Mehefin 2007

Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2007.

1. Cynllun Cyfathrebu

Yn dilyn cyfarfod rhwng JWW, CH a HR gwnaethpwyd rhai newidiadau i'r Cynllun Cyfathrebu.

2. Prosiect Economaidd

Cyflwynwyd adroddiad ar Effaith Economaidd S4C ar Economi Cymru 2002-2006. Cytunwyd ei fod yn adroddiad adeiladol ond bod angen ychwanegu brawddeg sy'n esbonio cyfraniad y BBC dros y 5 mlynedd diwethaf.

Nododd IJ bod Prifysgol Aberystwyth wrthi'n comisiynu papurau i gyd-fynd a phen-blwydd S4C yn 25.

3. Adroddiad y Cadeirydd

Llongyfarchodd JWW staff S4C ar ennill gymaint o wobrau Dylunio Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cadeiryddion Cyngor Cynulleidfa'r BBC a'r Awdurdod. Amlinellwyd amcanion yr Awdurdod ar gyfer y sianel blant, a thrafodwyd sut y gweithredir yr arwahanrwydd.

4. Ymgynghoriad Plant

Rhoddodd JWW grynodedeb o'r digwyddiadau sydd wedi bod ynghlwm â'r Ymgynghoriad Plant a nododd bod nifer o gyfarfodydd wedi'u cynnal gydag unigolion a sefydliadau. Hyd yma cafwyd tua 45 o ymatebion i'r ddogfen ar y we, gyda phob un yn bositif.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar yr Ymgynghoriad, ac awgrymwyd y dylid ystyried nifer o wahanol ddulliau i annog oedolion, plant a phobl ifanc i ymateb. Penderfynwyd derbyn y cynnig bod NH yn cynorthwyo gyda'r gwaith ynghlwm â'r Ymgynghoriad.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IJ ei hadroddiad ysgrifenedig. Disgrifiodd yn fanwl y gohebu sydd wedi bod rhyngddi hi a Channel 4 ynglŷn â *Big Brother* a dyfarniad Ofcom. Gofynnodd am arweiniad gan yr Awdurdod i nodi un person i ddelio'n uniongyrchol â *Big Brother*.

Amlinellodd IJ ymateb Ofcom i'r gwaith ymchwil ar Channel 4. Mae rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi bod ar waith gyda S4C ers amser.

Awgrymodd y dylid anfon linc i wefan Ymddiriedolaeth y BBC ynglŷn ag agweddau sefydliadol (*Adroddiad ar ddiogelu didueddrwydd*) at aelodau'r Awdurdod.

Amlinellodd IJ y cynllun i sefydlu canolfan newydd S4C yng Nghaernarfon ddechrau 2008.

Cyhoeddwyd taw prosiectau cymunedol yn y maes rygbi fydd elusen S4C am 2007.

6. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Cofnodion y Pwyllgor Cynnwys
- Cofnodion Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Cofnodion Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2007
- Tabl Digwyddiadau am 2007